# DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG / WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

## A GYFLWYNWYD / TABLED ON 3/11/2005

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
R Signifies the Member has declared an interest

### OPIN-2005-0068- Diwrnod COPD y Byd 2005 / World COPD Day 2005

**Codwyd gan / Raised by:** Val Lloyd

**Tanysgrifwyr / Subscribers:**

Ann Jones
Rhodri Glyn Thomas
Dai Lloyd
David Melding
Jenny Randerson
Janice Gregory
Karen Sinclair
Val Lloyd
Christine Chapman
Gwenda Thomas
Elin Jones

### Diwrnod COPD y Byd 2005

Mae'r Cynulliad hwn yn croesawu Diwrnod COPD y Byd ar 16 Tachwedd, sy'n codi ymwybyddiaeth ynglŷn â Chlefyd Ysgyfeintiol Cronig Rhwystredig (COPD). Yn anffodus, mae 3,000 o bobl yn dioddef o COPD ac mae'n achosi 30,000 o farwolaethau yn y DU bob blwyddyn. Credwn ei bod hi'n hollbwysig hyrwyddo rheolaeth effeithiol dros COPD mewn gofal sylfaenol er mwyn lleihau'r baich ar ofal eilaidd a sicrhau gwell canlyniadau i gleifion.

Croesawn y strategaeth resbiradol sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth y Cynulliad ac edrychwn ymlaen at ei gweld yn cael ei chyhoeddi. Cefnogwn alwadau gan Sefydliad Ysgyfaint Prydain Cymru i'r strategaeth hon gael cyllid digonol a rhoi blaenoriaeth i'w gweithredu.

### World COPD Day 2005

This Assembly welcomes World COPD Day on 16 November which raises awareness of chronic obstructive pulmonary disease (COPD). We regret that

COPD has 3 million sufferers and causes 30,000 deaths in the UK every year. We believe it is vital to promote effective management of COPD in primary care to reduce the burden on secondary care and improve outcomes for patients.

We welcome the respiratory strategy that is being developed by the Assembly Government and look forward to its publication. We support calls by the British Lung Foundation Wales for this strategy to be adequately financed and prioritised for implementation.